Hybu ymgysylltiad a chyflawniad academaidd ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd du a chymysg yng Nghymru

Chwefror 2017

Dr Jonathan Brentnall

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30643 ISBN digidol 978 1 4734 8125 1

Cynnwys

Cyd-destunau a Chefndir 1
Amlygwyd deuddeg pwnc allweddol yn ystod y trafodaethau gweithdy 3
1. Hyfforddiant 4
2. Ymgysylltiad a Llais 6
3. Cydraddoldeb 8
4. Lles 10
5. Y Cwricwlwm 12
6. Sylw yn y Cyfryngau 14
7. Setiau a Haenau TGAU 16
8. Cymorth Teuluol 18
9. Ymyriadau gyda Disgyblion 20
10. Esiamplau Da 22
11. Llwybrau Amgen 24
12. Ymyriadau Cymdeithasol 26

Cyd-destun a Chefndir

- Er gwaethaf patrymau cyrhaeddiad cadarnhaol nifer o grwpiau ethnig lleiafrifol a llwyddiant academaidd llawer o ddisgyblion unigol, mae'r ffigurau cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer sawl ethnigrwydd Du a Chymysg islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol ac mae rhai'n dirywio wrth fynd trwy'r cyfnodau allweddol. Mae hybu gwell ymgysylltiad a chynyddu cyflawniad academaidd yn hollbwysig i wella canlyniadau addysgol ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yng Nghymru.
- Gan gydnabod y pryder hwn, yn rhan o'i chynhadledd *Codi Dyheadau – Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru* a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2014 yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, trefnodd Llywodraeth Cymru ddau weithdy 50 munud yn canolbwyntio ar faterion ac anghenion disgyblion ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Mynychwyd y gweithdai gan nifer o ymarferwyr o'r sector addysg yng Nghymru i drafod materion a allai atal ymgysylltiad a chyflawniad academaidd rhai disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, ac ystyried ffyrdd posibl o fynd i'r afael â rhain. Dewiswyd pynciau trafod o adolygiad llenyddiaeth o ymchwil.
- Comisiynodd Llywodraeth Cymru Dr Jonathan Brentnall i hwyluso'r gweithdai a llunio adroddiad ar y materion a'r anghenion a amlygwyd yn yr ymchwil a'r trafodaethau gweithdy.
- Rydym ni'n ddiolchgar i'r rhai a fynychodd y gweithdai am eu cyfraniadau.



Cyd-destun a Chefndir

- Mae data cyrhaeddiad yn datgelu ffigurau sy'n achos pryder arbennig ar gyfer yr is-grwpiau Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Unrhyw Gefndir Du Arall a Gwyn a Du Caribïaidd Cymysg.
- Mae ffigurau gwahardd yn dangos bod mwy o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn destun pob math o wahardd o'r ysgol.
- Gwelwyd patrwm o gyfraddau gwahardd uwch ar gyfer disgyblion ethnigrwydd Du a Chymysg ers sawl blwyddyn. Mae esboniadau a gynigiwyd mewn astudiaethau yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i: berthnasoedd gwrthdrawiadol, yn aml rhwng athrawon a disgyblion; dylanwad ystrydebu a disgwyliadau isel gan athrawon; disgyblion yn herio awdurdod; ac ymatebion disgyblu llymach i gamymddwyn. Yn aml, mae ysgolion yn ymateb i achosion o gamymddwyn heb geisio deall na mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol yn llawn, ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i hil a hunaniaeth wrth ymchwilio i ddigwyddiadau.
- Yn aml, mae bechgyn o ethnigrwydd Du a Chymysg, yn enwedig, yn cael eu gwahardd am ymddygiad dialgar yn erbyn yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn hiliaeth bersonol neu sefydliadol.
- Gellir osgoi rhai gwaharddiadau trwy ddefnyddio dulliau cyfiawnder adferol.



Gwaharddiadau parhaol (fesul 1000 o ddisgyblion) 2008-13, Cymru



Gwaharddiadau cyfnod penodol o 6 diwrnod neu fwy (fesul 1000) 2008-13



Gwaharddiadau cyfnod penodol o 5 niwrnod neu lai (fesul 1000) 2008-13

[Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru]

Amlygwyd deuddeg pwnc allweddol yn ystod y trafodaethau gweithdy

1. **Hyfforddiant**: Materion ac Anghenion

Roedd yr angen am hyfforddiant yn thema gyffredin ar draws bron pob pwnc a drafodwyd.

Mae angen hyfforddi pob athro cymwysedig a dan hyfforddiant mewn:

- materion amrywiaeth a chydraddoldeb;
- strategaethau ar gyfer cynyddu cyrhaeddiad disgyblion o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y rhai hynny o ethnigrwydd Du a Chymysg;
- cynyddu disgwyliadau disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg a gwrthweithio mythau ac ystrydebau;
- rheoli ymddygiad er mwyn dileu unrhyw anghydraddoldeb wrth drin disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Ni roddir digon o sylw i'r materion hyn mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i baratoi athrawon dan hyfforddiant yn ddigonol.

- Teimlai'r cynrychiolwyr yn y gweithdy fod y sylw a roddir i faterion amrywiaeth, cydraddoldeb a chyflawniad lleiafrifoedd ethnig, a'r ymagwedd atynt, mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn symbolaidd yn unig ac yn annigonol.
- Mae'r amser sydd ar gael mewn elfennau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn y brifysgol yn rhy fyr i ymdrin yn ddigonol â'r holl gynnwys sy'n ofynnol, gan olygu mai blaenoriaethau'r llywodraeth sydd drechaf, heb adael digon o le i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Mae'n ymddangos bod llawer o Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n dechrau eu gyrfa addysgu mewn ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth 'gosmetig', arwynebol iawn o faterion hil, amrywiaeth a chydraddoldeb.

Mae'n rhaid gwella'r ffordd y caiff athrawon eu hyfforddi i reoli ymddygiad mewn perthynas â disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

- Mae'n rhaid i sefydliadau hyfforddiant athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus fynd i'r afael â rheoli ymddygiad.
- Mae dulliau mwy cyson o reoli ymddygiad wedi gwella'r sefyllfa mewn rhai ysgolion, ond nid yw'r dulliau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn unffurf ledled Cymru. Mae modelau Cyfiawnder Adferol yn Nhrefynwy a Chaerdydd wedi gweithio'n dda.
- Mae angen archwilio polisïau gwahardd mewnol i weld a yw'r gostyngiad ymddangosiadol mewn gwaharddiadau cyfnod penodol yn cael ei ddisodli gan gynnydd mewn gwahardd/arwahanu mewnol yn yr ysgol.
- Mae angen gwell tystiolaeth ystadegol i ddangos bod disgyblion o gefndiroedd penodol yn cael eu cynrychioli'n anghymesur o ran Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol ar gofrestrau Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol, mewn gwaharddiadau mewnol ac mewn gwaharddiadau cyfnod penodol.
- Mae angen i unrhyw fodel hyfforddiant ar gyfer rheoli ymddygiad gael ei ystyried yn ofalus iawn.

Hyfforddiant (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

Darparu hyfforddiant i bob athro ac Athro Newydd Gymhwyso fel eu bod yn:

- cyfleu disgwyliadau uchel o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, yn uniongyrchol ac yn aml, yn yr ystafell ddosbarth ac mewn rhyngweithiadau bugeiliol a disgyblu;
- cyfeirio at agweddau ar hunaniaeth disgyblion yn ymwneud â hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, diwylliant a ffydd, er mwyn iddynt deimlo fel petaent yn cael eu cynnwys yn llawn a'u gwerthfawrogi'n gydradd;
- ymdrin yn hyderus â phynciau yn ymwneud â hil, ethnigrwydd a chrefydd;
- defnyddio strategaethau addysgu a dysgu priodol gyda dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol o ethnigrwydd Du, Cymysg ac ethnigrwydd lleiafrifol arall;
- sylweddoli faint o ddealltwriaeth a sensitifrwydd sy'n angenrheidiol wrth ymdrin â materion ymddygiad yn ymwneud â disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Hyfforddi arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion i:

- osgoi rhagfarn mewn gweithdrefnau gwahardd, a sefydlu mesurau amgen i gynnal ymgysylltiad disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg ag addysg.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

Hyfforddi gweithwyr i:

- fod yn ymwybodol o sut mae ystrydebau a rhagfarnau personol sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn yn effeithio ar agwedd ac ymddygiad;
- deall pam nad yw'n briodol defnyddio lliwddallineb fel agwedd a dull wrth ddarparu gwasanaethau i ddisgyblion a defnyddwyr gwasanaeth ethnigrwydd Du a Chymysg.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Sicrhau bod anghenion grwpiau lleiafrifol Du, Cymysg ac eraill yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio unrhyw newidiadau i addysg a hyfforddiant athrawon yng Nghymru.
- Sicrhau bod Estyn yn gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn gywir.
- Dal Consortia ac awdurdodau lleol i gyfrif am unrhyw ganlyniadau anghyfartal ac annheg i ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

2. **Ymgysylltiad a Llais**: Materion ac Anghenion

Mae angen cynyddu'r cyfleoedd i leisiau pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg gael eu clywed.

Dylid cynyddu cynrychiolaeth, dylanwad a llais disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned wrth wneud penderfyniadau am addysg.

- Mae rhai rhieni ac aelodau cymunedau ethnigrwydd Du a Chymysg yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda ac nad oes ganddynt lawer o ddylanwad dros bolisi addysg.
- Mae'n rhaid gwerthfawrogi disgwyliadau a dyheadau rhieni ar gyfer eu plant ochr yn ochr â rhai'r system addysg.
- Mae'n rhaid cynnwys disgyblion a rhieni, gwrando arnynt, parchu eu barn a sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi i rannu eu pryderon.

Mae angen ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â disgyblion, rhieni, gofalwyr ac aelodau'r gymuned i wella hyder mewn ysgolion.

- Mae'n rhaid i unrhyw ymgais i ymgysylltu â rhieni a chymunedau gael ei chyflawni'n briodol, yn sensitif ac mewn ffordd systematig a system gyfan, nid yn symbolaidd, er mwyn cynyddu hyder mewn ysgolion.
- Nid yw 'ymgynghori' symbolaidd ag arweinwyr cymunedol neu gynrychiolwyr dethol yn ddigonol.
- Gall uwch reolwyr llawn dychymyg, sy'n croesawu awgrymiadau ac yn annog aelodau'r gymuned i gymryd rhan, greu ethos sy'n galluogi disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg i ffynnu.
- Mae gan ysgolion lle mae disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn llwyddiannus bartneriaethau a ddatblygwyd yn dda â'u cymunedau. Mae rhieni'n gwybod bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maen nhw'n teimlo'n hyderus wrth ryngweithio â'r ysgol.
- Mae Prosiectau Cyflawniad Somalïaid a Charibïaid Du Caerdydd wedi cael llwyddiant wrth ymgysylltu â rhieni ac aelodau'r gymuned a'u cynnwys mewn addysg yn ogystal â chynorthwyo eu plant a'u pobl ifanc.

Mae angen gwneud mwy o waith i annog pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) i ymuno â'r proffesiwn addysgu.

- Nid oes digon o athrawon o ethnigrwydd Du a Chymysg yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru.
- Nid oes digon o hyfforddeion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn ymuno â'r proffesiwn addysgu.
- Mae angen data cyhoeddedig mwy cywir a monitro gwell.

Ymgysylltiad a Llais (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Cymryd camau pendant i gynnwys aelodau cymunedau, rhieni a disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg mewn prosesau cynllunio datblygiad ysgol mewn amgylchedd cefnogol.
- Hybu mwy o gyfranogiad, cyfnewid diwylliannol a chyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Chyn Ysgol.
- Amlygu dyheadau ac anghenion pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg o ran cymwysterau ôl-16 ac oedolion.
- Dangos diddordeb go iawn mewn profiadau unigol a chyfunol disgyblion fel plant a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Defnyddio gweithredu cadarnhaol i recriwtio llywodraethwyr ysgol o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth ethnigrwydd Du a Chymysg a meithrin eu hymddiriedaeth, fel y gellir teilwra gwasanaethau cyhoeddus yn well i fodloni eu hanghenion.
- Gweithio gyda sefydliadau fel Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn herio hiliaeth y tu allan a'r tu mewn i'r ysgol.
- Cysylltu â grwpiau hawliau menywod BAME a gweithio'n agos gyda nhw.
- Ymgysylltu â phobl ifanc mewn ardaloedd lle mae gangiau'n gweithredu, a mynd i'r afael ag eithafiaeth trwy weithio'n agos gyda phobl mewn eglwysi, mosgiau a grwpiau lleol eraill sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater yn eu cymunedau.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Gwella cynrychiolaeth lleisiau ethnigrwydd Du a Chymysg mewn prosesau gwleidyddol.
- Cefnogi mentrau cymunedol sy'n galluogi cymunedau BAME i weithio gyda'i gilydd i ddal gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif.
- Sicrhau bod rhieni a disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cyfranogi'n llawn fel rhanddeiliaid mewn prosesau ymgynghori ar bolisïau.
- Defnyddio gweithredu cadarnhaol i recriwtio athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol o ethnigrwydd Du a Chymysg, eu cadw a dileu ffactorau sy'n eu rhwystro rhag cael dyrchafiad.

3. **Cydraddoldeb**: Materion ac Anghenion

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar gydraddoldeb mewn addysg.

Nid yw pob ysgol yn gwneud digon i fynd i'r afael â'i dyletswyddau cydraddoldeb na herio anghydraddoldeb hiliol.

- Mae gofynion llai ar gyfer polisïau cydraddoldeb hiliol ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol yn cyfrannu at fonitro ac atebolrwydd llai trwyadl.
- Gellid dweud bod y sylw a roddir i ddyletswyddau cydraddoldeb mewn llawer o ysgolion yn 'symbolaidd', er bod rhai ysgolion yn fwy effeithiol o lawer nag eraill.
- Mae rhieni'n pryderu bod llai o wybodaeth ar gael am gydraddoldeb ac y bydd llai o bwyslais ar gydraddoldeb hiliol yn cael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc o gefndir Du, Cymysg a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Mae angen i gynlluniau cydraddoldeb fod yn fwy effeithiol.

- Nid oes llawer o dystiolaeth o ysgolion yn cynhyrchu, gweithredu na gwerthuso cynlluniau cydraddoldeb llawn.
- Mae ysgolion yn tueddu i ddefnyddio modelau polisïau cydraddoldeb a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Lleol a'u personoli yn unig trwy newid rhai darnau o wybodaeth i gyfateb i'r ysgol, yn hytrach na datblygu polisi a chynllun sy'n uniongyrchol berthnasol i'w sefyllfa leol.

Nid yw'r gofynion arolygu mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer cydraddoldeb hiliol a disgyblion BAME yn ddigon trylwyr.

- Nid yw'r gofynion arolygu mewn perthynas â darpariaeth awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer disgyblion BAME a chydraddoldeb hiliol yn ddigon trylwyr. Nid yw pob arolygydd wedi'i hyfforddi'n dda nac yn ddigon penodol wrth werthuso ysgolion mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg a chydraddoldeb hiliol ar gyfer disgyblion BAME.
- Heblaw am Sipsiwn a Theithwyr, mae disgyblion o'r holl leiafrifoedd ethnig yn cael eu rhoi mewn grŵp gyda'i gilydd mewn canllawiau Arolygu, yn hytrach na'u gwahaniaethu yn ôl is-grwpiau estynedig, ac felly mae anghenion penodol niferoedd bach o ddisgyblion o ethnigrwydd Du, Cymysg neu leiafrifoedd eraill yn llawer llai tebygol o gael eu hamlygu.
- Os nad yw'r data a'r wybodaeth a ddarperir gan ysgolion a'r arolygiadau eu hunain yn amlygu unrhyw faterion yn ymwneud â disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, mae'n annhebygol y bydd unrhyw rai'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu mewn cynlluniau ysgol.
- Gall prosesau dethol a niferoedd bach mewn samplau cyfweld olygu nad yw disgyblion a rhieni/gofalwyr o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael eu cynrychioli.

Cydraddoldeb (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Cyfleu negeseuon eglur o'r corff llywodraethu i gymuned yr ysgol ynglŷn â safbwynt yr ysgol mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol a sicrhau bod yr ysgol gyfan yn cyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb.
- Datgan na fydd hiliaeth o unrhyw fath yn cael ei goddef.
- Sicrhau, pan fydd arolygiadau ysgol yn cael eu cynnal, bod rhieni disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael eu cynrychioli'n dda ac yn cyfranogi'n llawn yn y broses.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Defnyddio prosesau rhagweithiol ar gyfer dethol am gyfweliad, interniaethau a chysgodi swydd er mwyn annog pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus.
- Herio arferion cyflogaeth gwahaniaethol sy'n gwrthod ymgeiswyr o ethnigrwydd Du a Chymysg am gyfweliadau neu'n peidio â chyflogi ymgeiswyr BAME pan fyddant yn yr un mor gymwys neu'n gallu gwneud y swydd cystal â phobl o ethnigrwydd arall.
- Dylai Estyn hyfforddi pob arolygydd ysgol yn effeithiol er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth ysgolion â dyletswyddau cydraddoldeb yn cael ei harolygu'n drwyadl a chyda dealltwriaeth wybodus.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Amlygu sut y gallai diwygiadau addysg roi rhannau penodol o boblogaeth Cymru dan anfantais, gan gynnwys pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Annog yn gryf gweithredu'n gadarnhaol i unioni gwahaniaethau sylweddol mewn proffiliau cyflogaeth ar gyfer pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yng Nghymru, gan ddefnyddio lleoliadau, interniaethau a chysgodi swydd i gynyddu cyfleoedd.

4. **Lles**: Materion ac Anghenion

Mae angen gwella'r ddarpariaeth gofal bugeiliol, cwnsela a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth iechyd meddwl a lles cymdeithasol ar gyfer pobl o ethnigrwydd Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill yn ymestyn y tu hwnt i ysgolion.

- Mae mater cymdeithasol ehangach ynglŷn â darparu gofal ar gyfer iechyd meddwl a lles cymdeithasol pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg, yn enwedig ceiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd amddifadedd lluosog; ond mae lles personol disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn fater i ysgolion hefyd.

Nid yw disgyblion BAME yn gyffredinol a disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn benodol yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth ieuenctid a chwnsela.

- Mae llai o ddisgyblion BAME o lawer yn defnyddio a chael eu cyfeirio at wasanaethau cwnsela ysgolion, ond mae canran y disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela *ar-lein* yn uwch.
- Nid yw pobl ifanc BAME yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau ieuenctid prif ffrwd ychwaith, ac nid oes digon o ddarpariaeth wedi'i theilwra'n benodol iddyn nhw. Mae gwaith Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) Abertawe wedi'i deilwra iddynt ac wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae'n rhaid i wasanaethau gofal bugeiliol, cwnsela ac iechyd meddwl fod yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol a rhoi ystyriaeth iddynt.

- Mae safbwyntiau diwylliannol ynglŷn â sut y dylid darparu gofal bugeiliol a chwnsela yn amrywio. Mae'r math o wasanaethau a gynigir ar hyn o bryd yn dilyn model Gorllewin Ewrop yn bennaf nad yw'n briodol o bosibl i ddisgyblion o bob cefndir.
- Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â diwylliant, ffydd, iaith, statws, amgylchiadau teuluol, camdriniaeth a hiliaeth yn hynod sensitif a chymhleth. Mae angen arbenigedd sylweddol i ymdrin â nhw'n effeithiol.
- Nid oes digon o athrawon na chwnselwyr o gefndir lleiafrif ethnig, sy'n deall ieithoedd lleiafrifol neu sydd â digon o ddealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol i allu cynnig gofal bugeiliol priodol i'r holl ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg y mae arnynt ei angen.

Lles (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Creu perthynas gadarnhaol â disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhyngddyn nhw ac athrawon.
- Datblygu awyrgylch o ymddiriedaeth a pharch fel y bydd disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn agored â'r gweithwyr proffesiynol a all eu helpu i ddatrys amrywiaeth o faterion personol ac addysgol.
- Hyfforddi athrawon a staff eraill ysgolion i sylwi ar arwyddion pryder ac ymdrin â materion dadleuol yn hyderus.
- Sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus i adrodd am hiliaeth ac yn gwybod y byddant yn cael eu cefnogi'n llwyr gan yr ysgol pan fyddant yn gwneud hynny.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Datblygu rhaglenni penodol ar gyfer gofal bugeiliol, iechyd meddwl a lles disgyblion Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill.

Darparu arweiniad a gwybodaeth:

- i weithwyr cymdeithasol, seicolegwyr addysg, cwnselwyr ysgol ac athrawon sydd â chyfrifoldebau gofal bugeiliol, ynglŷn ag anghenion gofal bugeiliol ac iechyd meddwl teuluoedd a disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, yn enwedig o ran ymateb i anghenion emosiynol, seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol plant sydd wedi dioddef trawma, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a dioddefwyr hiliaeth.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Archwilio'r rhesymau pam mae llai o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn defnyddio a chael eu cyfeirio at wasanaethau cwnsela ysgolion o gymharu â'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein.
- Gwerthuso'r ddarpariaeth gofal bugeiliol, cwnsela ac iechyd meddwl ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, amlygu unrhyw annigonolrwydd a gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth tecach yn cael ei ddarparu, gan gynnwys recriwtio mwy o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn materion BAME.
- Gwerthuso arferion cofnodi, monitro, olrhain ac adrodd am ddigwyddiadau hiliol, a dadansoddi data ynglŷn â digwyddiadau bwlio er mwyn sicrhau nad yw hiliaeth yn cael ei chelu mewn categorïau fel bwlio yn ymwneud â 'golwg', 'iaith', 'dillad' ac ati.

5. **Y Cwricwlwm**: Materion ac Anghenion

Mae diffyg amrywiaeth yn y cwricwlwm yn cyfrannu at ddadrithiad ymhlith disgyblion o ethnigrwydd Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill.

Dylai cynnwys mwy amrywiol gael ei ymgorffori yn y cwricwlwm ysgol, gan gynnwys hanes pobl dduon, astudiaethau lleiafrifoedd ac astudiaethau'r byd.

- Yn aml, mae gwaith sy'n cyfeirio at bobl dduon yn canolbwyntio'n rhy gul ar gaethwasiaeth, gwladychiaeth a hawliau dynol heb fawr o 'gynnwys Du cadarnhaol', neu mae wedi'i gyfyngu i'r Mis Hanes Pobl Dduon yn hytrach na chael ei astudio drwy gydol y flwyddyn fel rhan annatod o'r cwricwlwm.
- Mae angen diwygio'r cwricwlwm hanes er mwyn sicrhau bod caethwasiaeth a gwladychiaeth yn cael sylw priodol. Gallai gwaith ar gaethwasiaeth hanesyddol gael ei gysylltu â chaethwasiaeth fodern. Mae angen rhoi mewnbwn gwybodus i'r Adolygiad o'r Cwricwlwm, ond nid yw'n eglur gan bwy, pryd na sut y bydd hyn yn digwydd.

Mae integreiddio amrywiaeth mewn cynnwys ac adnoddau ar draws y cwricwlwm yn amrywio rhwng ysgolion.

- Mae'n anodd annog ysgolion i integreiddio amrywiaeth ar draws y cwricwlwm fel cynnwys arferol.
- Mae'r graddau yr eir i'r afael ag amrywiaeth yn y cwricwlwm yn dibynnu ar y lleoliad, cyfansoddiad y gymuned, yr ysgol a'r garfan disgyblion i ryw raddau. Mae rhai ysgolion yn ei thrin mewn ffordd arwynebol a symbolaidd.
- Mewn rhai ysgolion, anaml iawn y bydd disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn gweld eu hunaniaeth hiliol, ethnig, genedlaethol neu ddiwylliannol yn cael ei hadlewyrchu yng nghynnwys neu adnoddau'r cwricwlwm.

Mae angen i gwricwlwm amrywiol fod yn rhan o ethos ysgol gyfan gwirioneddol gynhwysol.

- Mae cydnabyddiaeth gadarnhaol o hunaniaeth Ddu a Chymysg mewn ysgolion yn hybu ymgysylltiad, ymrwymiad a chyflawniad disgyblion.
- Mae ysgolion a chanddynt ethos cynhwysol sy'n parchu hunaniaeth a gwerthfawrogi cyflawniadau disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn llwyddo i annog disgyblion i barhau i ymgysylltu ag addysg a gwneud yn dda yn academaidd. Mae tôn gadarnhaol, canmoliaeth, gwobrau a pherthynas dda rhwng staff a disgyblion yn ganolog i ethos ysgolion o'r fath.
- Mae angen datblygu a hyfforddi athrawon i addysgu cwricwlwm amrywiol.

Y Cwricwlwm (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Amlygu sut a ble i integreiddio cynnwys cadarnhaol am amrywiaeth a chyflawniadau pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg, ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- Annog disgyblion BAME i gyfrannu gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain a'u diwylliant mewn gwersi, gan ei rhannu â'u cyfoedion.
- Cynnwys gwybodaeth gywir, gytbwys am faterion cyfoes a digwyddiadau rhyngwladol mewn cenhedloedd o amgylch y byd mewn gwasanaethau, dosbarthiadau Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd, dosbarthiadau Addysg Grefyddol ac ar draws meysydd pwnc eraill.
- Cefnogi datblygiad mamieithoedd disgyblion hyd at hyfedredd a'u galluogi i wneud cais i sefyll TGAU mamiaith.
- Gwahaniaethu gwaith dosbarth yn briodol i ategu datblygiad ieithyddol a chynnal her wybyddol fel bod disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol yn gallu cael eu cynnwys yn llawn.
- Astudio'r amryw fathau o hiliaeth a chaniatáu i ddisgyblion drafod ffyrdd o'u herio.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Gwerthuso sut mae ysgolion yn cyflwyno materion cyfoes a digwyddiadau rhyngwladol i ddisgyblion wrth iddynt ddigwydd, er mwyn gwella'r ffordd maen nhw'n ymdrin â phynciau a allai fod yn ddadleuol sy'n effeithio ar fywydau disgyblion, yn enwedig y rhai hynny o gefndir ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Darparu gwybodaeth reolaidd i ysgolion am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n berthnasol yn lleol, ynghyd ag arweiniad ar sut i fynd i'r afael â nhw gyda disgyblion.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Gwerthuso'r cwricwlwm newydd er mwyn canfod faint o gynnwys sy'n cyfeirio at bobl o ethnigrwydd Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill, faint o'r cynnwys hwnnw sy'n canolbwyntio ar brofiadau negyddol gwladychiaeth, caethwasiaeth, apartheid a hawliau sifil a faint sy'n archwilio ac yn dathlu agweddau cadarnhaol ar hunaniaeth, diwylliant a hanes pobl dduon.
- Integreiddio pynciau astudio yn y cwricwlwm ysgol sy'n berthnasol i ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, fel cynnwys cadarnhaol am Hanes Pobl Dduon, cyflawniadau pobl fodern a hanesyddol o ethnigrwydd Du a Chymysg a'u cyfraniadau at ddatblygiad diwylliannol Cymru a'r byd.

6. **Sylw yn y Cyfryngau**: Materion ac Anghenion

Mae sylw yn y cyfryngau yn atgyfnerthu ystrydebau ac yn dangos gormod o bortreadau negyddol o leiafrifoedd o hyd.

Mae angen herio sylw negyddol yn y wasg ynglŷn â chyflawniad, ymddygiad, ymfudo a chrefydd.

- Problem gymdeithasol yw hon sy'n ymestyn y tu hwnt i addysg, ac mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn yn lleol, trwy ystyried sefyllfaoedd lleol.
- Mae strategaeth PREVENT a Phrosiect Cynyddu Cyflawniad Somalïaid Caerdydd (RAPS) wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn ond mae llawer o ysgolion yn amharod i ymwneud ag agenda PREVENT. Maen nhw'n gwrthwynebu mynd i'r afael â'r problemau hyn ac nid yw llawer yn eu hystyried yn broblemau. Mewn rhai ysgolion, mae athrawon hyd yn oed yn 'ofni' disgyblion sydd wedi dod o dramor; maen nhw'n ofni eu herio neu gefnogi athrawon sy'n gweithio gyda nhw oherwydd eu bod yn ofni cael eu galw'n 'hiliol'.

Mae angen hyfforddi athrawon i fynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

- Os disgwylir i athrawon fynd i'r afael â'r materion hyn mewn gwersi dosbarth, mae angen hyfforddiant arnynt oherwydd nid oes ganddynt yr hyder, y wybodaeth a'r iaith briodol i'w wneud yn dda.
- Gallai dulliau da o addysgu llythrennedd mewn ysgolion fynd i'r afael â chynrychiolaeth yn y cyfryngau trwy ddewis ac ymholi testunau perthnasol. Byddai'n ffurfio rhan o ddatblygu 'Llythrennedd Beirniadol'.

Mae'n rhaid gwella sut mae lleiafrifoedd yn cael eu cynrychioli yn y cyfryngau ac mewn bywyd cyhoeddus.

- Ychydig o bobl o ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n dal swyddi awdurdodol mewn llywodraeth leol a chenedlaethol yng Nghymru o hyd.
- Mewn rhannau penodol o'r wasg, mae lleiafrifoedd, yn enwedig pobl ifanc dduon a Mwslimiaid, yn cael eu nodweddu gan benawdau negyddol ac ystrydebau rhagfarnllyd o hyd.
- Gall hyn danseilio hunanddelwedd disgyblion ac atgyfnerthu ymdeimlad o ddieithrio o rannau o gymdeithas lle nad yw pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael eu dangos fel y'u cynrychiolir. Mae'n cyfyngu'r ystod o alwedigaethau dymunol ac esiamplau da dyheadol i bobl ifanc, ac yn atgyfnerthu ystrydebau ymhlith y boblogaeth gyfan yn isganfyddol.

Sylw yn y Cyfryngau (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Datblygu llythrennedd beirniadol pob disgybl trwy gwestiynu camwybodaeth gan y cyfryngau sy'n cyflwyno delwedd ragfarnllyd, ystrydebol neu stigmateiddiol o grwpiau penodol o bobl, yn enwedig y rhai hynny o dras Du Affricanaidd.
- Gwrthweithio camwybodaeth ynglŷn â thangyflawniad pobl dduon trwy dynnu sylw at y llu o bobl o ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n llwyddiannus, yn yr ysgol ac mewn bywyd cyhoeddus.
- Rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i athrawon er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u defnydd o iaith briodol yn y meysydd hyn.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Ystyried amgylchiadau lleol er mwyn amlygu a mynd i'r afael â materion penodol sy'n effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd.
- Herio mynegiadau o senoffobia a hiliaeth yn yr ardal a gwerthuso arferion ar gyfer dileu hiliaeth yn yr ardal.
- Herio camwybodaeth ynglŷn â hil, materion cyfoes a digwyddiadau rhyngwladol yn y parth cyhoeddus trwy roi sylw iddi mewn trafodaethau cyhoeddus a thrwy gyflwyno gwybodaeth gywir am anghydraddoldeb, anghyfiawnder, rhagfarn a gwahaniaethu hiliol.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Defnyddio gweithredu cadarnhaol i annog pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg i ymuno â diwydiannau'r cyfryngau yng Nghymru a gwella cynrychiolaeth yn y cyfryngau prif ffrwd.
- Herio'r cyfryngau i ddefnyddio ymchwil gyfrifol a chyhoeddi adroddiadau cytbwys, trwy weithio gyda sefydliadau'r cyfryngau a'u dal i gyfrif am y rhaglenni, y straeon a'r erthyglau a gyhoeddant.
- Cymryd camau pendant i annog y cyfryngau i gyfleu delweddau a negeseuon cadarnhaol ynglŷn ag amrywiaeth, gan gynnwys pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yng Nghymru.

7. Setiau a Haenau TGAU: Materion ac Anghenion

Mae rhai disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg dan anfantais oherwydd y setiau, y ffrydiau a'r haenau arholiad y'u gosodir ynddynt.

Mae gormod o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael eu gosod mewn grwpiau, setiau neu haenau arholiad is.

- Mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod cyfran fwy o ddisgyblion o gefndir Du Caribïaidd, Gwyn a Du Caribïaidd Cymysg a rhai cefndiroedd Du Affricanaidd yn cael eu gosod mewn setiau a haenau arholiad gallu is na disgyblion o'r rhan fwyaf o grwpiau eraill. Mae mwy yn cael eu 'dosbarthu' mewn grwpiau sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD). Ystyrir bod llai ohonynt yn fwy galluog, dawnus neu dalentog. Mae disgwyliadau athrawon yn effeithio ar yr arferion hyn llawn cymaint â pherfformiad gwirioneddol, ac mae rhywfaint o dystiolaeth o ddisgyblion yn cael eu gosod cyn sefyll prawf.
- Mae hyn yn achos pryder mawr i rieni o gefndir Du ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddadrithio a graddau arholiad is i rai disgyblion. Trwy gael eu 'gosod i fethu' a'u rhoi mewn dosbarthiadau gyda disgyblion gallu is, mae rhai plant a phobl ifanc yn mynd yn aflonyddol oherwydd nad ydynt yn cael eu hymestyn.

Mae angen dadansoddi data'n well er mwyn pennu graddau'r arferion hyn a monitro'r effaith ar grwpiau disgyblion.

- Mae angen mwy o dystiolaeth a data pendant i ddangos i ba raddau y mae hyn yn digwydd mewn ysgolion yng Nghymru.
- Mae mynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud â dadansoddi data, safoni ac asesu ac mae'n gofyn am hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater a sut mae'n codi.

Dylai ysgolion fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio profion rhagfynegol a chyrhaeddiad blaenorol wrth roi disgyblion BAME a Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol mewn setiau, ffrydiau a haenau.

- Mae ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o brofion academaidd gwybyddol sylfaenol i asesu darllen, llythrennedd, rhifedd a rhesymu di-eiriau er mwyn eu helpu i 'ragfynegi' yr hyn y mae disgyblion yn debygol o'i gyflawni. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth ragfynegol i osod eu disgyblion mewn grwpiau a setiau neu ddethol eu dewisiadau pwnc a'u haenau arholiad. Mae'r wybodaeth hon yn llai dibynadwy ar gyfer disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol a rhai disgyblion lleiafrifoedd ethnig oherwydd gwahaniaethau mewn addysg flaenorol, lefelau hyfedredd mewn Saesneg/Cymraeg a ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol a sefydliadol eraill.

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Sefydlu ethos cryf o barch at amrywiaeth, anogaeth gadarnhaol a chanmoliaeth am waith o ansawdd da.
- Cyfleu disgwyliadau uchel o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg wrth hyfforddi, rhoi adborth, marcio, a gosod mewn setiau a bandiau.
- Archwilio p'un a yw arferion yr ysgol ar gyfer gosod mewn setiau, ffrydiau a haenau TGAU yn rhoi disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg dan anfantais ai peidio ac, os felly, newid yr arferion hynny.
- Sicrhau nad yw disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael camddiagnosis o fathau penodol o Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig BESD.
- Cynnig ystod eang o famieithoedd disgyblion ar lefel TGAU, fel bod y rhai hynny sydd â'r gallu yn cael dewis gwneud yr arholiad.
- Defnyddio asesiad mamiaith ochr yn ochr ag unrhyw asesiadau cyfrwng Saesneg/Cymraeg er mwyn sicrhau'r gwerthusiad mwyaf cywir o allu academaidd a gwybodaeth flaenorol disgyblion.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr addysg ynglŷn â:

- dylanwad ystrydebau negyddol o bobl o ethnigrwydd Du a Chymysg ar agweddau personol, a sut gall y rhain effeithio'n isymwybodol ar ddisgwyliadau, penderfyniadau a rhyngweithiadau personol;
- y duedd ymhlith athrawon i beidio â rhoi cymorth academaidd i ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg a gorymateb i'w hymddygiad aflonyddol;
- achosion sylfaenol ymddygiad aflonyddol a ddangosir gan ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Sefydlu cam yn y gweithdrefnau ar gyfer llunio profion cenedlaethol, gan ddefnyddio cyngor arbenigol, i asesu cynnwys ac arddull er mwyn gweld a oes rhagfarn ddiwylliannol ac anfantais bosibl i ddisgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai hynny o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Gwerthuso gweithdrefnau profion cenedlaethol, i weld a oes unrhyw agweddau ar y broses yn rhoi disgyblion o ethnigrwydd Du, Cymysg neu arall dan anfantais, a phennu p'un a ellir gwneud unrhyw welliannau er mwyn sicrhau mynediad llawn.
- Cymell ysgolion i ddeall yr angen am broffiliau asesu datblygiadol cyfannol ar gyfer pob plentyn, a defnyddio ystod eang o wybodaeth i lywio penderfyniadau ynglŷn â ble i'w gosod.

8. **Cymorth Teuluol**: Materion ac Anghenion

Dylid darparu cymorth mwy penodol i deuluoedd plant a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Mae data cyfun yn dangos materion nodedig mewn amgylchiadau teuluol plant a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.

- Mae cryn dipyn yn fwy o deuluoedd unig riant o gefndir Du Affricanaidd, Caribïaidd a Gwyn a Du Cymysg yng Nghymru o gymharu â grwpiau eraill.
- Mae mwy o blant a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg mewn gofal awdurdod lleol na rhai o grwpiau ethnig eraill.
- Mae prinder rhieni mabwysiadol a rhieni maeth o leiafrifoedd ethnig, a gall rhai plant o ethnigrwydd Du a Chymysg fod mewn gofal am gyfnod hwy nag eraill oherwydd ei bod hi'n anodd dod o hyd i leoliadau addas iddynt. Mae plant BAME sy'n cael eu lleoli gyda theuluoedd o gefndir hiliol neu ethnig arall yn cael anawsterau weithiau ac yn wynebu hiliaeth sy'n codi o wahaniaethau rhyngddyn nhw a'r teulu y cawsant eu lleoli ag ef.

Mae angen i wasanaethau cymorth i deuluoedd fod yn fwy sensitif o lawer i hil a diwylliant.

- Mae rhywfaint o dystiolaeth nad yw gwasanaethau cymorth i deuluoedd, perthnasoedd a cham-drin domestig yn ddigon sensitif i anghenion pobl o gefndiroedd Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill; bod gweithwyr yn aml yn defnyddio dull 'lliwddall', gan drin pob defnyddiwr gwasanaeth yr un fath; nad yw pobl BAME yn gwneud digon o ddefnydd o wasanaethau cymorth ac y dylid gwneud mwy o ymdrech i ddeall anghenion plant a phobl ifanc o gefndiroedd Du a Chymysg sy'n byw mewn amgylchiadau teuluol anodd.
- Mae'n rhaid i gymorth i deuluoedd fod yn ehangach nag ysgolion yn unig ac mae'n rhaid iddo gynnwys partneriaethau amlasiantaethol, gan gynnwys sefydliadau'r 3^{ydd} sector.

Mae'n rhaid i gymorth i deuluoedd ddarparu ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion.

- Mae llawer o oedolion llwyddiannus o ethnigrwydd Du a Chymysg yn priodoli eu llwyddiant academaidd i ddylanwad eu rhieni, yn enwedig eu mamau, ac weithiau aelodau eraill o'r teulu estynedig.
- Mae rhai gwrywod ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg nad oes ganddynt ddynion addas i roi esiampl dda iddynt yn efelychu ystrydebau gwrywaidd gormodol neu'n ymwneud â gang. Mae eraill yn ymgymryd â rôl gwryw arweiniol cyfrifol yn eu haelwyd. Gallai bechgyn a theuluoedd yn y ddwy sefyllfa elwa o gymorth ychwanegol.
- Gall fod yn anodd i lawer o rieni Somalïaidd roi cymorth academaidd i blant oherwydd tarfwyd ar eu haddysg ffurfiol yn Somalia o ganlyniad i ryfel ac nid ydynt wedi gallu parhau â'u haddysg yng Nghymru.

Cymorth Teuluol (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Rhoi sicrwydd, cymorth, ffiniau eglur, hyder a strategaethau i ymdrin â gwrthdaro i blant a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Hybu agweddau cadarnhaol at lwyddiant academaidd ac annog cymhelliad i gyflawni nodau.
- Annog datblygiad gwerthoedd moesoldeb, gwelliant personol a thrin pobl eraill yn dda trwy Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Ymestyn allan i rieni plant o ethnigrwydd Du a Chymysg trwy ddysgu fel teulu a grwpiau cymorth i rieni y trydydd sector.
- Bod yn sensitif i wahaniaethau diwylliannol a deinameg perthnasoedd rhyng-hiliol, ac ymdrin yn hyderus â digwyddiadau hiliol trwy weithdrefnau penodedig priodol ym mhob maes gwasanaeth cyhoeddus.
- Darparu ymyriadau wedi'u targedu i gynorthwyo unig rieni sy'n codi plant o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Cefnogi mentrau cymunedol sy'n annog mwy o dadau o ethnigrwydd Du a Chymysg i gynnal perthynas gadarnhaol, ymrwymedig â'u plant.
- Gweithio'n agos ac yn gefnogol gyda theuluoedd ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n cael anawsterau er mwyn eu helpu i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a lleihau'r angen i blant gael eu rhoi mewn gofal.
- Darparu dosbarthiadau iaith, llythrennedd ac addysg i oedolion mewn canolfannau cymunedol, ysgolion a lleoliadau eraill sydd ar gael i aelodau'r gymuned.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Cefnogi mentrau cymunedol sy'n grymuso a hyrwyddo mwy o gydraddoldeb i fenywod mewn cymunedau ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Cefnogi rhaglenni sy'n hybu datblygiad llythrennedd mewn mamieithoedd aelodau'r gymuned a Saesneg/Cymraeg.
- Annog cymunedau BAME i gymryd rhan mewn mentrau Llythrennedd Teuluol, Dysgu fel Teulu a Rhianta.

9. **Ymyriadau gyda Disgyblion**: Materion ac Anghenion

Dylid cyflwyno ymyriadau mwy penodol i wella lefelau ymgysylltiad a llwyddiant academaidd disgyblion.

Mae angen ailedrych ar y dull o ddarparu ymyriadau ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

- Mae'n rhaid amlygu'r angen am gyllid wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill nad ydynt yn ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol.
- Mae problem yn codi yn sgil y ffaith bod ymyriadau wedi'u targedu yn cael eu hystyried (gan bobl Wyn a BAME – disgyblion, rhieni ac athrawon) fel 'neilltuo' disgyblion Du neu BAME oherwydd hil, a rhoi blaenoriaeth a chymorth iddynt er y gallai fod gan eu cyfoedion Gwyn anghenion tebyg iawn ond nid ydynt yn cael cymorth ychwanegol. Mae angen ailedrych ar ymyriadau o'r fath o'r dechrau ac mae angen egluro arwyddocâd hil a hunaniaeth mewn ymgysylltiad a llwyddiant academaidd disgyblion Du.
- Mae'n rhaid cynnwys rhieni, disgyblion ac aelodau'r gymuned wrth lunio'r math o gymorth a gynigir, yn hytrach nag anfon athrawon neu fentoriaid ychwanegol i ysgolion yn unig. Mae angen i ymyriadau gael eu cynnal ar sail tymor hir, gan ddatblygu perthnasoedd.
- Ystyriwyd bod rhai ymyriadau sy'n ceisio mynd i'r afael ag eithafiaeth yn aneffeithiol neu'n wrthgynhyrchiol.
- Mae'n rhaid cynyddu ymwybyddiaeth a seilio ymyriadau ar anghenion.

Mae'n rhaid archwilio elfen hiliol digwyddiadau ymddygiad a chosbau yn ymwneud â disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn llawn.

- O gymharu â disgyblion o gefndiroedd eraill, mae disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg weithiau'n cael eu disgyblu'n fwy parod ac yn fwy llym.
- Gallai ysgolion ymateb i achosion o gamymddwyn heb geisio deall neu fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn llawn, ac mae'n bosibl na fyddant yn rhoi digon o ystyriaeth i elfennau hil a hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, *Queer*, Rhyngrywiol ac Anrhywiol (LGBTQIA), wrth ymchwilio i ddigwyddiadau.
- Mae disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg, yn enwedig bechgyn, yn cael eu gwahardd o'r ysgol yn amlach na disgyblion o'r prif gategorïau ethnigrwydd eraill. Weithiau, fe'u gwaherddir am ddial yn erbyn hiliaeth bersonol neu sefydliadol, ac am achosion o ymddygiad gwael nad ydynt yn arwain at wahardd disgyblion o gefndiroedd eraill.
- Gall gofyn y cwestiynau iawn, gwrando ar ymatebion disgyblion a defnyddio dulliau cyfiawnder adferol atal rhai gwaharddiadau.

Ymyriadau gyda Disgyblion (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Hybu'r defnydd o fodelau cyfiawnder adferol ar gyfer ymdrin â materion camymddwyn a disgyblu.
- Gofyn y cwestiynau iawn i fynd i wraidd unrhyw elfennau hiliol, homoffobig neu eraill o ddigwyddiadau ymddygiadol.
- Ymgysylltu'n ddeallus ac yn sensitif â phobl ifanc o ethnigrwydd Du, Cymysg ac arall ynglŷn ag eithafiaeth grefyddol a'i pheryglon.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Gweithio'n agos gyda disgyblion, rhieni ac aelodau'r gymuned, gan wrando'n ofalus ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ynglŷn â'r ffordd orau o drefnu ymyriadau i hybu ymgysylltiad a llwyddiant academaidd.
- Darparu mannau a grwpiau amgen i ymadweithio â nhw ar gyfer disgyblion sy'n cael eu hamlygu i ddylanwadau negyddol, gwrthaddysg.

Cynnal rhwydweithiau cymorth:

- ar gyfer disgyblion sy'n symud fel y gallant gadw mewn cysylltiad â ffrindiau ac aelodau o'r un cymunedau mewn rhannau gwahanol o'r wlad;
- ar gyfer pobl ifanc LGBTQIA, sy'n cynnwys rhai Du, Cymysg a lleiafrifoedd eraill ac amrywiaeth o draddodiadau crefyddol a diwylliannol.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Comisiynu ymchwiliad i'r rhesymau pam mae mwy o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn cael eu gwahardd o ysgolion yng Nghymru.
- Archwilio data er mwyn canfod a oes unrhyw ragfarn barhaus yn erbyn disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg mewn gwaharddiadau anghyfreithlon, gwahanu disgyblion a disgyblu mewnol anffurfiol, a ddefnyddir fwyfwy yn lle gwaharddiadau ffurfiol.
- Cyfeirio rhywfaint o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg i fynd i'r afael yn benodol ag anghenion disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.
- Ymestyn a chynnal rhaglenni ymyrraeth sy'n defnyddio mentoriaid ac esiamplau da o ethnigrwydd Du a Chymysg i weithio gyda phobl ifanc.
- Amlygu'r strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc y gallai eu hymrwymiad crefyddol fod yn tueddu tuag at eithafiaeth.

10. **Esiamplau Da**: Materion a Anghenion

Mae pobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg yn elwa o gael esiamplau da a mentoriaid cryf.

Mae angen darparu mwy o esiamplau da cadarnhaol i ddisgyblion, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â llwyddiant academaidd.

- Gall ymadweithio ag esiamplau da cadarnhaol o amrywiaeth eang o broffesiynau a rhannau o gymdeithas helpu pobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg i ddatblygu llythrennedd hiliol a diwylliannol a chryfhau eu hunanddelwedd.
- Gall mentoriaid a gweithwyr ieuenctid sy'n hyfforddi pobl ifanc weithredu fel esiamplau da cadarnhaol hefyd os gellir cynnal perthynas adeiladol.

Canfuwyd bod mentora'n strategaeth lwyddiannus ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

- Mae mentora gan athrawon neu 'esiamplau da' allanol o'r gymuned sy'n cael eu parchu yn gweithio'n dda gyda phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg, gan wneud iddynt deimlo'n werthfawr, eu helpu i ymroi i gyflawni targedau personol a chynyddu eu disgwyliadau eu hunain ynglŷn â'r hyn y gallant ei gyflawni. Mae mentora hefyd wedi bod yn ddefnyddiol wrth dorri cysylltiadau â gangiau ac ail-ymgysylltu pobl ifanc ag addysg.
- Mae angen sefydlu cysylltiadau da rhwng y 3^{ydd} sector ac ysgolion, ond mae'n bwysig ystyried y ffordd orau o gydlynu hyn ac amlygu pa gyfleoedd sydd ar gael i ddenu mentoriaid gwirfoddol i ysgolion i weithio gyda disgyblion.
- Mae angen meddwl yn ofalus am y ffordd y caiff rhaglenni mentora eu trefnu.

Gall cymorth gan gyfoedion weithio fel math o fentora.

- Os gellir annog grŵp o bobl ifanc i'w helpu ei gilydd i ymdrechu tuag at ragoriaeth, gall pwysau cadarnhaol gan gyfoedion i anelu'n uchel ac osgoi agweddau mwy gwrthacademaidd arwain at fanteision cadarnhaol iawn.

Esiamplau Da (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Annog plant a phobl ifanc i uniaethu ag esiamplau da Du a Chymysg yn eu teuluoedd, yn y gymuned ehangach ac mewn bywyd cyhoeddus.
- Sicrhau bod adnoddau addysgu'n cynrychioli pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg ac arall yn dda mewn amrywiaeth o amgylchiadau.
- Cyfleu pa mor bwysig ydyw i bobl ifanc gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau eu hunain a gwneud dewisiadau cadarnhaol am eu bywydau, gan amlygu manteision addysg ac anfanteision agweddau gwrthaddysg.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Gweithio gydag ysgolion i amlygu unigolion arwyddocaol sy'n gallu gweithredu fel cymhellwyr, mentoriaid ac esiamplau da i bobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.
- Creu cyfleoedd i wella llythrennedd hiliol a diwylliannol, lle y gellir trafod gwahaniaethau hiliol, ethnig, cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn amgylchedd diogel o fewn teuluoedd, rhwng ffrindiau, mewn grwpiau ieuenctid cymunedol lleol ac mewn ysgolion.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Clywed beth sydd gan rieni a gofalwyr i'w ddweud am yr hyn sydd ei angen i arwain a chynorthwyo eu plant.
- Amlygu'r ffordd orau o annog pobl ifanc y mae eu hymrwymiad crefyddol yn cynnal eu hymgysylltiad ag addysg a'u cymhelliad i wella eu hunain.
- Amlygu pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg a all ddod i'r ysgol a gweithio gyda disgyblion i ehangu amrywiaeth eu profiadau dysgu.
- Comisiynu astudiaeth i ganfod pam mae cyn lleied o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg llwyddiannus yn mynd ymlaen i fod yn athrawon.

11. **Llwybrau Amgen**: Materion ac Anghenion

Mae angen amrywiaeth o lwybrau addysg a chymwysterau ar gyfer pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Nid oes digon o lwybrau addysg amgen, atodol a galwedigaethol sy'n cael eu hariannu'n ddigonol.

- Mae gweithgareddau o ansawdd da amser cinio ac ar ôl ysgol, sesiynau adolygu, sesiynau paratoi ar gyfer arholiadau a dosbarthiadau dal i fyny ar ôl ysgol, ar y penwythnos ac yn ystod y gwyliau oll yn helpu i gynnal ymgysylltiad disgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg a'u cynorthwyo i ganolbwyntio ar gyflawniad uchel.
- Mae angen darparu amrywiaeth o lwybrau addysg i gynorthwyo rhieni, hwyrddyfodiaid, dysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol, y rhai hynny sy'n paratoi ar gyfer arholiadau a'r rhai hynny sydd wedi cael profiadau ysgol gwael sy'n dymuno ailgydio mewn addysg ffurfiol neu gymwysterau.
- Mae rhai disgyblion yn cael cyngor annigonol ynglŷn â dewisiadau ôl-ysgol ac yn teimlo bod rhai cynghorwyr yn troi at ddisgwyliadau ystrydebol, gan gynnig ystod gulach o ddewisiadau iddynt.
- Weithiau, nid yw'r cyrsiau addysg alwedigaethol a pharhaus sydd ar gael yn cael eu paru'n dda ag anghenion dysgwyr ôl-16.

Mae proffiliau cymwysterau a chyflogaeth oedolion yn wahanol rhwng y cymunedau ethnigrwydd Du a Chymysg amrywiol.

- Mae anghynefindra ag addysg a chyflogaeth yn y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y cyfraniad y gall rhai rhieni Du Affricanaidd ei gynnig i'w plant. Mae'r rhyfel yn Somalia wedi tarfu ar addysg llawer o bobl ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at addysg fel oedolion.
- Mae gan gyfran fawr o oedolion o gefndir Du Affricanaidd gymwysterau Lefel 4. Mewn cyferbyniad, ychydig o oedolion o gefndir Gwyn a Du Caribïaidd Cymysg sydd â chymwysterau Lefel 4 ac nid oes unrhyw gymwysterau ffurfiol o gwbl gan fwy na chwarter ohonynt.
- Mae mwy o oedolion o ethnigrwydd Du Affricanaidd a Chymysg yn ddi-waith ac ar incwm isel. Fodd bynnag, mae menywod Du Caribïaidd wedi'u cynrychioli'n dda mewn swyddi proffesiynol a rheoli statws canolig i uchel.

Mae gwahaniaethu a chyfleoedd cyfyngedig yn rhwystro symudedd cymdeithasol ymhlith oedolion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

- Ceir awgrym o wahaniaethu mewn arferion cyflogaeth, yn enwedig o ran oedolion Du Affricanaidd sydd â chymwysterau da.
- Mae cyfleoedd i astudio cymwysterau pellach yn gyfyngedig yn aml oherwydd nad yw darparwyr dysgu ar gael yn agos i'r ardal leol neu mewn lleoliadau y gellir eu cyrraedd yn gyfleus, yn enwedig i fenywod a rhieni sydd angen gofal plant.
- Mae'r anallu i gael cymwysterau tramor wedi'u cydnabod, neu astudio ar gyfer cymwysterau pellach o ganlyniad i ddiffyg argaeledd, yn gallu cadw rhai teuluoedd mewn tlodi, lleihau eu hunangred a thanseilio eu hyder yn y system a ddylai fod yn eu cynorthwyo.

Llwybrau Amgen (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Darparu ysgolion haf, dosbarthiadau amser cinio a dosbarthiadau ar ôl ysgol ychwanegol lle y gall disgyblion, gan gynnwys rhai o ethnigrwydd Du a Chymysg, ymgysylltu â dysgu academaidd ac anacademaidd mewn amgylchedd llai ffurfiol.
- Cynnig cyngor ar yrfaoedd a llwybrau sydd wedi'u teilwra i amgylchiadau pobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg ym mhob cymuned.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Gwerthuso'r cyfarwyddyd gyrfaoedd a ddarperir er mwyn pennu p'un a yw'n bodloni anghenion pobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg ai peidio.
- Ymgysylltu â chymunedau er mwyn amlygu dyheadau ac anghenion pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg mewn perthynas â chymwysterau ar gyfer pobl ôl-16 ac oedolion, a phennu'r ffordd orau o gael mynediad atynt.

Targedu ymyriadau i:

- annog mwy o rieni a chanddynt lefel is o addysg i gofrestru ar gyrsiau addas er mwyn ychwanegu at eu cymwysterau a'u sgiliau;
- gwella sgiliau cyflwyno, ysgrifennu CV a datblygu cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Gwerthuso amrywiaeth y cyrsiau galwedigaethol neu academaidd sydd ar gael i bobl ifanc ac oedolion, er mwyn amlygu unrhyw ddiffygion neu annigonolrwydd a allai fod yn rhoi pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg dan anfantais.
- Sicrhau bod llwybrau ar gael i oedolion o ethnigrwydd Du a Chymysg ddilyn addysg bellach mewn ffyrdd sy'n gweddu i ofynion bywyd teuluol, gofal plant a thrafnidiaeth.
- Ariannu mwy o waith gyda rhieni a theuluoedd BAME er mwyn gwella llythrennedd ac addysg oedolion, gan gynnwys rhaglenni addysg mewn ysgolion.

12. **Ymyriadau Cymdeithasol**: Materion ac Anghenion

Gallai amrywiaeth eang o faterion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol effeithio ar oedolion a phobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Mae cyfran fawr o bobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

- Ledled Cymru, mae hyd at 70% o'r boblogaeth ethnigrwydd Du yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, yn hytrach na llai difreintiedig, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ceir lefel uchel o amddifadedd lluosog mewn rhai o'r cymunedau lleol lle mae pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yn byw.
- Er bod llawer o ddisgyblion o ethnigrwydd Du a Chymysg yn dangos gwytnwch sylweddol trwy lwyddo'n academaidd, mae'r 'ods amddifadedd' wedi'u pentyrru yn eu herbyn.

Mae materion cymdeithasol ac ymddygiadol mewn cymunedau yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau ac addysg pobl ifanc.

- Mae llawer o rieni pobl ifanc o ethnigrwydd Du a Chymysg yn ofni bod pwysau gan gyfoedion i gydymffurfio ag agweddau negyddol diwylliant stryd yn fygythiad parhaus i'w plant, a bod rhaid iddynt weithio'n galed i gadw eu plant yn ddiogel.
- Mae presenoldeb gangiau, cyffuriau ac yfed alcohol o dan oed mewn cymunedau lleol yn rhoi pwysau cymdeithasol sylweddol ar bobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny o ethnigrwydd Du a Chymysg. Mae'n aml yn anodd i bobl ifanc wrthsefyll pwysau i gymryd rhan ac osgoi'r canlyniadau niweidiol.
- Yn y gymuned Somali, mae llawer o wragedd a mamau'n teimlo bod yr arfer diwylliannol ymhlith gwrywod o gnoi khat yn arwain at ganlyniadau negyddol i'w dynion ifanc, i deuluoedd ac i'r gymuned ehangach.
- Mae priodas dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) ac agweddau at hawliau menywod ac LGBTQIA yn effeithio ar rai pobl ifanc.

Mae angen mentrau wedi'u targedu i wrthweithio anfanteision tlodi, diweithdra ac amgylchedd cymunedol gwael.

- Mae angen i sawl un o'r materion hyn dderbyn sylw gan awdurdodau eraill y tu hwnt i addysg a chael eu cynnwys mewn mentrau cenedlaethol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd cymdeithasol.

Ymyriadau Cymdeithasol (parhad): Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion

Beth allai ysgolion ei wneud?

- Cynyddu ymwybyddiaeth a rhoi arweiniad i ddisgyblion ar amrywiaeth o faterion cymdeithasol a diwylliannol a allai achosi niwed iddynt neu effeithio ar eu hawliau dynol.

Beth allai awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill ei wneud?

- Cynorthwyo rhieni Du, Cymysg ac eraill i fagu eu plant mewn cymunedau lle mae gangiau, cyffuriau, alcohol a gweithgareddau anghyfreithlon yn bresennol, er mwyn helpu'r plant i ddatblygu 'gwytnwch' i wrthsefyll y bygythiadau hyn.
- Darparu rhwydweithiau cymorth ar gyfer unig rieni plant o ethnigrwydd Du a Chymysg sy'n ystyried gwahaniaethau o ran hil, dosbarth a rhyw ac nad ydynt yn blaenoriaethu'r agendâu dosbarth canol Gwyn trechaf.
- Darparu mwy o gymorth digonol sy'n sensitif yn ddiwylliannol i rieni sy'n cael trafferth, teuluoedd maeth a theuluoedd mabwysiadol plant o ethnigrwydd Du a Chymysg.

Beth allai Llywodraeth Cymru ei wneud?

- Amlygu'r materion allweddol sy'n effeithio ar gydlyniant cymunedol mewn ardaloedd lleol lle mae pobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yn byw, a chynyddu'r pwyslais ar gydweithio adeiladol.
- Amlygu pa faterion hiliaeth sy'n gyffredin mewn gwahanol rannau o Gymru a datblygu ffyrdd o fynd i'r afael â nhw'n effeithiol.
- Cefnogi mentrau cymunedol a sefydliadau crefyddol a seciwlar sy'n weithgar yn gymdeithasol sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd ac ehangu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd yng nghymunedau lleol tlotach Cymru lle mae llawer o bobl o ethnigrwydd Du a Chymysg yn byw.

Cynnal rhwydweithiau cymorth ar gyfer:

- menywod a merched sy'n profi triniaeth negyddol neu gamdriniol, neu sy'n byw o dan gyfyngiadau sy'n eu rhwystro rhag cyflawni eu nodau personol;
- gwragedd a mamau sy'n gorfod ymdopi â safbwyntiau neu uchelgeisiau eithafol gwŷr a phlant sydd eisiau teithio dramor a chymryd rhan mewn gwrthdrawiadau yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica;
- dioddefwyr a goroeswyr priodas dan orfod, trais cysylltiedig ag anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu merched, masnachu pobl, cam-fanteisio rhywiol a gweithgareddau eraill anghyfreithlon.